Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC

CYFRINACHOL **CADARNHAWYD**

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD
YNG NGWESTY CASTELL DEUDRAETH, MINFFORDD
DDYDD GWENER 4 EBRILL 2008

Yn bresennol:

Aelodau'r Cyngor Cynulleidfa:

Janet Lewis Jones (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru)
Roy Grant,
Dennis Gethin,
Nicola Branson,
Dafydd Whittall,
Alexandra McMillan,
Andrew Carter.

Staff BBC Cymru Wales:

Menna Richards, Rheolwr BBC Cymru Wales
Clare Hudson, Pennaeth Rhaglenni (Saesneg)
Keith Jones, Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) a Chyfryngau Newydd
Cathryn Allen, Pennaeth Datblygu Darlledu
Rhodri Talfan Davies, Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd BBC Cymru Wales

Staff Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC:

Karl Davies, Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd BBC Cymru Wales
Siôn Brynach, Ymgynghorydd Atebolrwydd BBC Cymru Wales
Clair Baguley, Cynorthwy-ydd Adrannol, Llywodraethu ac Atebolrwydd BBC Cymru Wales

Yn bresennol:

Marian Wyn Jones, Pennaeth Canolfan y BBC yng ngogledd Cymru (ar gyfer eitem 26)
Siân Gwynedd, Golygydd Radio Cymru (ar gyfer eitem 26).

22. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Carl Cooper,
Richard Lewis,
Jane James,
Teresa Rees,
Sangeet Bhullar,
Arun Midha.

23. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL AC UNRHYW FATERION SY'N CODI OHONYNT

O gywiro rhai mân wallau argraffu, derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir.

Hysbyswyd y Cyngor bod ymchwiliad y Cynulliad Cenedlaethol i ddarlledu yn mynd rhagddo. Mae'n debygol y bydd rheolwyr BBC Cymru Wales a'r Ymddiriedolwr Cenedlaethol yn cael eu galw i roi tystiolaeth i'r pwyllgor yn y cyfnod rhwng nawr a mis Gorffennaf, pan ddisgwylir i'r ymchwiliad ddod i ben.

Hysbyswyd aelodau'r Cyngor y byddai cyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd yn cael ei gynnal yn Aberystwyth.

24. ADRODDIADAU

Yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol

Trafodaeth ar ddigwyddiad allgyrraedd y noson gynt ym Mlaenau Ffestiniog

Roedd aelodau'r Cyngor o'r farn mai hwn oedd y gorau eto o ddigwyddiadau atebolrwydd y Cyngor, gyda nifer dda o bobl yn bresennol, a thrafodaethau a sylwadau bywiog, yn canmol yn ogystal ag yn mynegi pryderon am gynnyrch y BBC. Daeth y Cyngor i'r casgliad bod Siân Parri Huws, hwylusydd y cyfarfod, wedi cyflawni ei rôl yn effeithiol iawn hefyd.

Nododd y Cyngor ei fod wedi'i galonogi gan yr ystod eang o bobl a oedd wedi dod i'r cyfarfod. Daethant i'r casgliad bod rhoi gwahoddiad personol, yn hytrach na hysbysebu'n fwy cyffredinol, wedi bod yn llwyddiant. Dywedodd y cyfranogwyr eu bod nhw'n falch o fod wedi cael gwahoddiad.

Gofynnodd y Cyngor, p'un a oedd y cydbwysedd cywir wedi'i gyflawni rhwng cyflwyniadau a thrafodaethau. Roedd y Cyngor yn cydnabod hefyd, mai un anfantais o gael trafodaethau eang iawn oedd bod y casgliadau braidd yn amhendant, ac ystyriwyd a fyddai'n werth cael trafodaethau â mwy o ffocws yng nghyfarfodydd y dyfodol? Penderfynodd y Cyngor drafod y mater hwn ymhellach yn rhan o'i ystyriaethau ar ganlyniadau'r prosiect Cynyddu Effeithiolrwydd y Cynghorau Cynulleidfa.

Bydd adroddiad o'r cyfarfod yn ymddangos ar wefan y Cyngor Cynulleidfa yn fuan.

Rheolwr Cymru

Dywedodd Rheolwr Cymru wrth y Cyngor bod cylch gwaith Pwyllgor Darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol yn eang iawn ac yn cynnwys newid i deledu digidol ac adolygiad OFCOM o ddarlledu fel gwasanaeth cyhoeddus.

Dywedodd y Rheolwr wrth y Cyngor bod y gwaith ar Ddemocratiaeth Ddigidol yn mynd yn ei flaen. Mae hwn yn brosiect sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth ac a fydd yn defnyddio porth aml-gyfrwng. Bydd Pete Clifton yn gwneud cyflwyniad i'r Cyngor yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mehefin.

Cynhaliwyd Cynhadledd Ffydd a Darlledu lwyddiannus yn ddiweddar. Roedd ystod eang o bobl yn bresennol yn y gynhadledd, a chodwyd nifer sylweddol o bwyntiau yn ystod y trafodaethau, a gynhaliwyd dan reolau '*Chatham House*'. Dywedodd y Rheolwr bod y Gynhadledd wedi bod yn ddefnyddiol yn nhermau'r hyn a gafodd ei ddweud, a hefyd yn nhermau rhannu â'r cyfranogwyr y gwahanol fath o bwysau sy'n wynebu darlledwyr a'r penderfyniadau anodd y mae'n rhaid iddynt eu gwneud. Defnyddiwyd ymarferion hyfforddi i wneud hynny. Penderfynodd y Cyngor y byddai'n ddefnyddiol iddo gyflawni ymarfer tebyg.

Dywedodd Rheolwr Cymru wrth y Cyngor bod cynnydd yn cael ei wneud ar y cynigion ar gyfer gwasanaeth *BBC Lleol*, ac y byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r Ymddiriedolaeth ym mis Mehefin.

Adroddiad Y Bwrdd

Cymeradwyodd y Cyngor gynnwys yr adroddiad, ac aeth ati i ganmol y sylw a roddwyd i'r cyfnod a dreuliwyd yn Nolgellau yn rhan o'r cynllun *Yma i Chi*, yn enwedig ar *Wales Today*.

Hysbyswyd y Cyngor bod BBC Cymru Wales wedi cael 34 enwebiad am wobrau BAFTA Cymru a 5 enwebiad am wobrau BAFTA y DU gyfan.

25. ADOLYGIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR O BERFFORMIAD Y BBC YNG NGHYMRU

Mynegodd y Cyngor ei fodlonrwydd â'r adroddiad drafft terfynol, ac awgrymodd y dylid gwneud rhai mân addasiadau o ran arddull a drafftio. Cymeradwyodd y Cyngor y ddogfen a'r Blaenoriaethau o ran Cynulleidfaoedd ar gyfer Rheolwyr y BBC yn 2008-09.

26. CYFLWYNIAD AR WAITH CANOLFAN Y BBC YNG NGOGLEDD CYMRU

Hysbyswyd y Cyngor gan Marian Wyn Jones, Pennaeth Canolfan y BBC yng ngogledd Cymru, bod 100 o wneuthurwyr rhaglenni yng ngogledd Cymru ac 8% o staff BBC Cymru Wales. Dywedodd hefyd bod y gogledd yn cynhyrchu hyd at 85 awr o raglenni bob wythnos. Roedd hynny'n cyfateb i 4,000 o oriau yn ystod 2007/08, yn cwmpasu radio, teledu a darpariaeth ar-lein yn Gymraeg a Saesneg. Yna, amlinellodd sut y mae rhai o weithgareddau'r ganolfan yn cyfrannu at ddibenion y BBC.

Cyflwyno Cymru i'r Byd a chyflwyno'r Byd i Gymru

Roedd rhaglen deledu ar gyfer Rhwydwaith y BBC a ddarlledwyd yr wythnos honno, *One Life: Josie's journey* yn enghraifft dda o gyflawni'r diben hwn. Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar Josie Russell a gafodd ei gadael yn brwydo am ei bywyd yn dilyn ymosodiad ym 1996 lle cafodd ei mam a'i chwaer eu lladd. Llwyddodd y rhaglen i ddenu cyfran o 24% o'r gynulleidfa yng Nghymru, a chynulleidfa o 3.1milliwn ar draws y DU.

Roedd Radio'r Rhwydwaith yn ffocws allweddol ar gyfer y Diben hwn hefyd, ac enghraifft dda o hyn oedd rhaglen ddogfen Jeremy Grange, *Calls across the Wall*, a oedd yn adrodd stori am gyfeillgarwch a oedd wedi datblygu dros y ffôn rhwng gwragedd o Israel a Phalestina. Roedd y rhaglen hon wedi cael ymateb cadarnhaol gan y gynulleidfa.

Ysgogi Creadigrwydd a Rhagoriaeth Ddiwylliannol

Roedd Pennaeth y Ganolfan yn credu bod nifer o enghreifftiau da o'r diben hwn yn cael eu cyflawni yng Nghymru yn ogystal ag allbwn i'r Rhwydwaith o ogledd Cymru. Roedd hi'n ystyried y gwasanaeth a ddarlledwyd gan Radio Cymru ar ddydd Gwener y Groglith yn un enghraifft dda. Roedd y gwasanaeth eleni wedi cyflwyno disgrifiad y Beibl o ddydd Gwener y Groglith ar ffurf adroddiadau gwasanaeth newyddion 24 awr, gan amlygu natur gyfoes hanes y croeshoelio. Dywedodd wrth y Cyngor bod sgript y rhaglen ar gael ar wefan y BBC, ac mae nifer o unigolion a chynulleidfaoedd Cristnogol eisoes wedi mynegi eu gwerthfawrogiad.

Cynrychioli rhanbarthau a chymunedau Cymru

Rhaglen newydd am fwyd ar Radio Cymru yw *Blas*. Mae'n fwy na rhaglen goginio - mae'n cwmpasu ystod eang o faterion yn ymwneud â bwyd. Bu darllediad arbennig o'r rhaglen yn ystod ymweliad *Yma i Chi* â Dolgellau yn llwyddiant mawr. Denwyd dros 2,000 o ymwelwyr i'r sioe ddeuddydd hon yn Nolgellau.

Hysbyswyd y Cyngor gan Bennaeth y Ganolfan bod Gwasanaeth Gwybodaeth y BBC ym Mangor yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd gorau i'r gynulleidfa, ac mewn arolwg annibynnol a gynhaliwyd yn ddiweddar, dywedodd 95% eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth.

Cyflwyno technolegau newydd

Dywedodd Pennaeth y Ganolfan ei bod hi'n her barhaus i gadw deunydd yn berthnasol, ond bod datblygiadau technolegol newydd megis lansio podlediadau gan Radio Cymru a Radio Wales yn boblogaidd. Cynigiodd podlediad *Pigion* ar gyfer dysgwyr fel enghraifft. Mae *Pigion* yn cynnwys uchafbwyntiau o gynnyrch Radio Cymru ac mae wedi denu dysgwyr i wrando ar raglenni eraill Radio Cymru.

Hyrwyddo addysg a dysgu

O ran y Diben hwn, mae *Science Café* ar Radio Wales, sy'n cael ei gyflwyno gan Adam Walton o Wrecsam, yn ychwanegiad diweddar llwyddiannus i amserlen yr orsaf. Mae'n cynnig cymysgedd da o adroddiadau a chyflwynydd brwdfrydig.

Amrywiaeth

Mae'r maes hwn wedi cael llawer o sylw yn ddiweddar, ac er bod elfen o gyrraedd targedau ynghlwm wrtho, roedd Pennaeth y Ganolfan yn ei weld yn bennaf yn ffordd o wneud BBC Cymru Wales yn lle croesawgar i bawb waeth beth. Hysbyswyd y Cyngor bod meddalwedd newydd ar fin cael ei lansio a fyddai'n cynorthwyo'r BBC i fonitro'r modd y caiff pobl ag anabledd a phobl o gefndir ethnig lleiafrifol eu portreadu. Hysbyswyd y Cyngor bod llwyddiannau wedi bod o ran gwella amrywiaeth, ond bod monitro parhaus yn hanfodol o ran sicrhau llwyddiant yn y tymor hir.

Dywedodd wrth y Cyngor ei bod hi'n debygol y bydd gogledd Cymru'n elwa o'r datblygiadau'n ymwneud â symud gwaith allan o Lundain - yn arbennig oherwydd agosrwydd Wrecsam i Salford. Mae'n debyg mai ym maes datblygu staff y gwelir y manteision mwyaf.

Wrth orffen ei chyflwyniad, pwysleisiodd Pennaeth y Ganolfan yr ymrwymiad enfawr sy'n bodoli o fewn BBC Cymru Wales i adlewyrchu holl gymunedau Cymru yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Diolchodd y Cyngor i Bennaeth Canolfan y BBC yng ngogledd Cymru am ei chyflwyniad, a chymeradwyodd y gwaith sy'n cael ei wneud ym maes amrywiaeth. Gofynnodd y Cyngor pa effaith yr oedd y datblygiad o gyd-gyflwyno rhaglenni radio o Fangor a Chaerdydd wedi'i chael ar ffigyrau gwrando? Atebodd, er ei bod hi'n anodd nodi unrhyw agwedd benodol ar raglenni unigol sydd wedi cael effaith ar ffigyrau gwrando, bod tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod gwrandawyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'r datblygiad hwn.

Gofynnodd y Cyngor i Bennaeth Canolfan y BBC yng ngogledd Cymru p'un a oedd unrhyw ddeunydd yn benodol ar gyfer plant yn cael ei gynhyrchu yng nghanolfannau gogledd Cymru. Atebodd, er nad oedd unrhyw ddeunydd yn benodol ar gyfer plant yn cael ei gynhyrchu, bod cysylltiadau agos â nifer o ysgolion yng ngogledd Cymru, a bod un o gyflwynwyr ifanc y rhaglen newyddion *Ffeil* wedi'i leoli ym Mangor.

27. Ail Adolygiad OFCOM o Ddarlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus

Hysbyswyd y Cyngor Cynulleidfa gan yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol bod Ymddiriedolaeth y BBC wedi dod i'r casgliad mai un ymateb y dylid ei gyflwyno oddi wrth y BBC yn hytrach nag ymatebion gwahanol oddi wrth yr Ymddiriedolaeth a'r Weithrediaeth. Awgrymodd, efallai y byddai'r Cyngor, wrth lunio ei gyfraniad i'r cyflwyniad hwn, yn dymuno canolbwyntio'n arbennig ar rôl hanfodol y BBC yng Nghymru o ran cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil, ac ar y ddarpariaeth Gymraeg sy'n cael ei darlledu yn rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus.

Mynegodd y Cyngor y farn bod angen gwneud un pwynt hanfodol, sef nad yw'r ddadl bod mwy o gystadleuaeth yn arwain at fwy o ddarparwyr yn dal dŵr yng Nghymru - ac na fyddai

rhannu ffi'r drwydded ymysg darlledwyr o angenrheidrwydd yn arwain at fwy o ddarparwyr yng Nghymru. Gwnaeth y Cyngor y pwynt, y byddai rhannu ffi'r drwydded ymysg darlledwyr yn arwain at lai o atebolrwydd o ran y modd y caiff yr incwm sy'n dod o Ffi'r Drwydded ei ddefnyddio.

Mynegodd y Cyngor y farn gref bod y mater o fàs critigol yn un maes y dylid canolbwyntio arno yn ei gyflwyniad, gan fod tystiolaeth o bwysigrwydd hyn yn amlwg iawn yn BBC Cymru Wales. Maint y BBC yn ei ffurf bresennol sy'n ei alluogi i ddarparu'r ystod o gynnyrch y mae'n ei ddarparu, ac os byddai'n cael ei leihau, gallai hyn gael ei golli hefyd yn ogystal â'r manteision cysylltiedig o ran effeithlonrwydd.

Er y byddai nifer o gyfleoedd i'r Cyngor wneud sylwadau ac adlewyrchu barn cynulleidfaoedd yn ystod adolygiad OFCOM, penderfynodd y Cyngor y dylai'r mater hwn gael lle canolog ar agenda ei gyfarfod nesaf, er mwyn galluogi'r Cyngor i roi ystyriaeth ofalus i gynigion cychwynnol OFCOM a fydd yn cael eu cyhoeddi'n fuan. Dywedodd y Cyngor y byddai'n bwysig nodi ffordd effeithiol o gyfleu'r materion sy'n berthnasol i Gymru.

Gadawodd Rheolwyr y BBC y cyfarfod

28. Busnes yr Ymddiriedolaeth (yn breifat)

Cymeradwyodd y Cyngor y gwaith a wnaed gan staff Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru ar wefan CCC. Roedd y Cyngor yn croesawu'r cynnydd sylweddol yn nifer yr ymweliadau â'r wefan yn ystod y misoedd diwethaf hefyd.

Adroddiad yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol

Dywedodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol wrth y Cyngor bod cyllideb y BBC bellach yn ei lle i gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd gofynnol o ganlyniad i setliad Ffi'r Drwydded.

Hysbyswyd y Cyngor bod y gwaith o gyflwyno *Freesat* yn mynd rhagddo yn unol â'r amserlen. Dywedwyd bod yr Ymddiriedolaeth wedi cymeradwyo cynigion y cynllun Cynyddu Effeithiolrwydd y Cynghorau Cynulleidfa hefyd.

Dywedodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol wrth y Cyngor bod yr Adolygiad Diddueddrwyd y mae'r Athro Anthony King yn ymgymryd ag ef, i fod i gael ei gyflwyno i Ymddiriedolaeth y BBC yn gynnar yn yr haf. Mae'r adolygiad yn edrych ar y sylw a roddir i wledydd unigol y DU ar deledu'r rhwydwaith.

Cynyddu Effeithiolrwydd y Cynghorau Cynulleidfa

Cymeradwywyd y ddogfen a gododd o'r prosiect pellgyrhaeddol a phwysig hwn gan y Cyngor a chytunwyd bod angen gwneud mwy o waith ar ymwneud ac ymgynghori â chynulleidfaoedd. Penderfynodd y Cyngor y dylai'r gr p bach a fu'n edrych ar y mater flwyddyn yn ôl ailymgynnull i ystyried y mater hwn eto ar ôl gweld cynigion y cynllun Cynyddu Effeithiolrwydd y Cynghorau Cynulleidfa.

Gweithredu: HoG&AW

29. Materion sydd o Flaenoriaeth i Ymddiriedolaeth y BBC

Roedd y Cyngor o'r farn ei fod yn hanfodol bod y BBC, mewn ymateb i adolygiad cyhoeddus OFCOM o ddarlledu fel gwasanaeth cyhoeddus, yn amlygu'r ffaith bod cyd-destun y cyfryngau ar gyfer Darlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru yn wahanol iawn i gyd-destun y DU gyfan.

30. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Atgoffwyd y Cyngor y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 2 Mai yng Nghanolfan Ddarlledu'r BBC yng Nghaerdydd, ac y byddai cinio preifat ar gyfer y Cyngor yn cael ei gynnal ar nos Iau 1 Mai.

***